Inspection of Youth Offending Work
Arolygiad o Waith Troseddu Ieuenctid
HM Inspectorate of Probation
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre, 1 Bridge Street West, Manchester M3 3FX
0161 240 5336 - www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

| | |
|---|---|
| *I:* | Iwan Davies, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych |
| *Copi at:* | Gweler y rhestr copi ar y diwedd |
| *Gan:* | Julie Fox, Prif Arolygydd Cynorthwyol EM |
| *Dyddiad Cyhoeddi:* | 3 Medi 2014 |

## Adroddiad Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) o waith troseddau ieuenctid yng Nghonwy a Sir Ddinbych

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r arolygiad SQS diweddar, a gynhaliwyd o 21 - 23 Gorffennaf 2014. Cynhaliwyd hwn fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau gwaith troseddau ieuenctid. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Prawf EM. Bydd copi yn cael ei ddarparu i arolygiaethau partner i lywio eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI).

## Cyd-destun

Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ynghylch effeithiolrwydd gwaith gyda'r rhai hynny sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau rydym yn eu harolygu ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

Mae asesiad o ansawdd da a chynllunio ar ddechrau dedfryd yn hanfodol i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Diben yr arolygiad hwn oedd asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith achos diweddar gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Er mwyn gwneud hyn, archwiliwyd 14 o achosion gennym a oruchwyliwyd gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych. Lle bo'n bosibl, gwnaed hyn ar y cyd â'r rheolwr achos a ddyrannwyd, a thrwy hynny, fe gynyddwyd effeithiolrwydd fel cyfle dysgu i'r staff.

Rydym yn casglu tystiolaeth yn erbyn y meini prawf SQS, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM - http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/

## Crynodeb

Y gyfradd[1] aildroseddu a gyhoeddwyd ar adeg yr arolygiad oedd 33.8%. Roedd hyn yn gynnydd ers y chwarter blaenorol o 29.7% ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (35.4%).
Ar y cyfan, gwelsom grŵp o staff ymroddedig yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach. Roedd y tîm yn elwa o ystod o staff arbenigol, yr oedd eu cyfraniad yn amlwg yn yr asesiadau a'r cynlluniau a welsom. Cawsom ein plesio hefyd gan y dulliau a ddefnyddiwyd yn aml yn greadigol i helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gwaith i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd, fodd bynnag, lle i wella ansawdd rhai o’r asesiadau a’r cynlluniau, yn enwedig i ddiogelu plant a phobl ifanc. O ystyried ymrwymiad y staff a'r rheolwyr, rydym yn rhagweld bod modd cyflawni’r gwaith da a arsylwyd yn y rhan fwyaf o achosion, ym mhob achos.

[1] Cyhoeddwyd yn Ebrill 2014 yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu deuaidd ar ôl 12 mis ar gyfer carfan Gorffennaf 2011 hyd at Fehefin 2012. Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

**Sylwadau ar yr arolygiad yng Nghonwy a Sir Ddinbych:**

## 1. Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu

1.1. Roedd asesiad cychwynnol y plentyn neu'r person ifanc o'r tebygolrwydd o aildroseddu yn ddigonol ym mhob un ond dau achos. Roedd y mwyafrif helaeth yn drylwyr ac yn rhoi darlun cyflawn o amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys sut roedd ffactorau fel eu haddysg a chamddefnyddio sylweddau'n effeithio ar eu tebygolrwydd o aildroseddu.

1.2. Paratowyd adroddiadau cyn dedfrydu mewn 11 o achosion. Roeddem o'r farn bod wyth o'r rhain o ansawdd da. Mewn tri adroddiad cyn dedfrydu, nid oedd asesiad o risg y plentyn neu'r person ifanc o niweidio eraill yn ddigon trylwyr. Roedd angen dadansoddiad gwell o amgylchiadau'r achos a chymhelliant yr unigolyn i droseddu. Roeddem, fodd bynnag, yn falch o weld bod yr holl adroddiadau cyn dedfrydu'n rhoi sylw i anghenion amrywiol y plentyn neu'r person ifanc a sut y gellid rhoi sylw i'r rhain fel rhan o orchymyn llys.

1.3. Yn dilyn yr asesiad, roeddem yn edrych i weld a oedd cynllun gwaith er mwyn helpu i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd hyn yn ei le, ac o ansawdd digonol ym mhob achos o garchar ac ym mhob un ond dau achos cymunedol. Defnyddiodd staff amrywiaeth o ddulliau yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfarfodydd ymddygiad troseddol ffurfiol, yn ogystal â gweithgareddau fel 'Coginio a Bwyta'. Mewn un sesiwn o'r fath, roedd person ifanc ag anawsterau llythrennedd a sgiliau byw yn annibynnol cyfyngedig, wedi'i gynorthwyo i ddatblygu ei sgiliau darllen ac ysgrifennu drwy ddrafftio bwydlenni, a'i sgiliau byw yn annibynnol drwy goginio a bwyta'r bwyd roedd wedi'i baratoi. Roedd sesiynau'n cael eu cofnodi'n glir, fel y dywedodd un arolygydd: *"Unwaith eto roedd y cysylltiadau'n ymwneud â gwaith yn canolbwyntio ar droseddu'n waith da iawn. Maent yn disgrifio'r sesiwn ac yn darparu gwybodaeth am fewnwelediad a meddyliau'r person ifanc am y testun".*

1.4. Bu adolygiad digonol o'r asesiad a'r cynllun i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu ym mhob un ond dau achos perthnasol. Lle'r oedd diffygion, roedd hyn yn aml yn ymwneud â diweddariad annigonol o amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc.

## 2. Amddiffyn y cyhoedd

2.1. Rydym yn disgwyl gweld asesiad manwl o'r risg o niwed y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn peri i bobl eraill. Dylai hyn gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys troseddu ac ymddygiad yn y gorffennol, yn ogystal â'r effaith ar ddioddefwyr. Gwelsom fod hyn wedi cael ei wneud yn dda mewn 8 allan o'r 14 o achosion yn y sampl. Pan roedd yr asesiad yn annigonol, roedd hyn yn aml oherwydd bod troseddau blaenorol perthnasol neu ymddygiad wedi cael eu hanwybyddu. Yn y sampl, cawsom hyd i ddau achos a aseswyd yn amhriodol fel un a oedd yn cynrychioli risg isel o niwed i eraill.

2.2. Ar ôl asesu'r risgiau, dylai'r GCI roi cynlluniau ar waith i'w rheoli. Roedd y rhain yn ddigon da mewn saith o'r deg achos perthnasol yn y sampl arolygu. Mewn un achos, nid oedd y cynllun rheoli risg wedi'i gwblhau yn ôl yr angen ac mewn dau achos arall, roedd cynlluniau annigonol ar waith i fynd i'r afael â'r risg o niwed i'r dioddefwr.

2.3. Roeddem, fodd bynnag, yn falch o nodi bod asesiadau a chynlluniau i reoli risg y plentyn neu'r person ifanc o niwed i eraill wedi cael eu hadolygu'n briodol ym mhob achos ond un.

2.4. Canfuom fod goruchwyliaeth gan reolwyr o waith i ddiogelu'r cyhoedd wedi bod yn effeithiol mewn tri o'r pedwar achos perthnasol yn y sampl.

## 3. Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc

3.1. Roedd yr asesiad cychwynnol o ddiogelu a bod yn agored i niwed wedi'i gwblhau yn ddigon da mewn 10 allan o'r 14 o achosion yn y sampl. Roedd lefel y plentyn neu'r person ifanc o fod yn agored i niwed wedi cael ei hamcangyfrif yn rhy isel mewn tri achos. Weithiau, dylid bod mwy o sylw wedi cael ei roi i drefniadau byw. Er enghraifft, fe wnaethom anghytuno â'r asesiad GCI bod person ifanc yr aseswyd gan y gwasanaethau cymdeithasol fel Plentyn mewn Angen a oedd yn newid cyfeiriad yn aml rhwng aelodau'r teulu, yn lefel isel o bod yn agored i niwed yn unig. Roeddem yn falch, fodd bynnag, o nodi bod defnydd da yn cael ei wneud o Therapydd Lleferydd ac Iaith y GCI. Mewn un achos yn y sampl, nododd ein harolygydd: *"Mae ei hasesiad o'r person ifanc wedi arwain at gynllun cyfathrebu'n cael ei gynhyrchu i helpu'r rheolwr achos i gynnwys y dyn ifanc trwy ddefnyddio iaith glir a syml iawn. Roedd hyn wedyn yn ei helpu i fynd i'w apwyntiadau a chydymffurfio â'i orchymyn llys".*

3.2. Roedd cynlluniau diogelu a bod yn agored i niwed addas yn eu lle ar ddechrau'r ddedfryd, mewn 8 allan o 12 achos perthnasol. Dylid bod mwy o sylw wedi cael ei roi i roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â threfniadau byw anfoddhaol, ac anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, sy'n aml yn gymhleth.

3.3. Mae anghenion diogelu a bod yn agored i niwed plant a phobl ifanc yn newid dros amser ac mae'n rhaid, felly, parhau i'w hadolygu. Gwelsom fod yr asesiadau wedi cael eu hadolygu i safon dderbyniol mewn 7 allan o 11 achos perthnasol, a bod cynlluniau wedi'u hadolygu'n ddigon da mewn dim ond 6 allan o 11 achos. Roedd y rhesymau dros annigonolrwydd yn amrywio, gan gynnwys adolygiad coll, cynllun annigonol ar gyfer rhyddhau o'r ddalfa, a chynlluniau nad oedd wedi'u hadolygu yn ôl y gofyn. Nid oedd y diffygion wedi cael sylw bob amser gan reolwyr. Yn ein sampl, canfuwyd bod goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr o waith ddiogelu a bod yn agored i niwed ond mewn pedwar allan o wyth achos perthnasol.

## 4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

4.1. Roeddem yn falch o weld bod materion amrywiaeth a rhwystrau posibl eraill rhag ymgysylltu, gan gynnwys anghenion iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc, wedi cael eu hasesu'n dda ym mhob achos. Mae'r GCI yn cwmpasu ardal wledig fawr ac roedd gweithwyr yn gallu darparu'r cydbwysedd cywir rhwng ymweliadau â'r cartref ac apwyntiadau swyddfa. Roedd hyn yn eu helpu i weithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn ogystal â'u rhieni / gofalwyr ac i ddeall yn well yr hyn a oedd wedi'u harwain i droseddu.

4.2. Wrth arolygu yng Nghymru, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o sgrinio gweithredol ac amserol o ddewis iaith Cymraeg/Saesneg y plentyn neu'r person ifanc. Roedd yn dda gweld bod yr holl blant a phobl ifanc wedi cael eu holi am eu dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf â staff GCI. Ar ben hynny, mae gan GCI Conwy a Sir Ddinbych reolwyr achos sy'n siarad Cymraeg i'w galluogi i ymateb i ddewis iaith y plentyn neu berson ifanc pan fydd yr angen yn codi.

4.3. Roedd y mwyafrif o'r plant a'r bobl ifanc yn ein sampl wedi cydymffurfio â'u gorchymyn llys. I'r rhai nad oedd wedi gwneud hynny, canfuom fod y GCI wedi ymateb yn briodol ym mhob achos ond un. Os oedd anawsterau, roedd y GCI yn cynnal 'paneli cydymffurfiaeth' ddwywaith yr wythnos i drafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc, a'u rhieni / gofalwyr, y rhesymau dros beidio â mynd i apwyntiadau. Byddai hyn yn aml yn eu helpu i fynd yn ôl ar y trywydd iawn.

## Rheolaeth Weithredol

Roedd y GCI wedi canolbwyntio ar gryfhau goruchwyliaeth gan reolwyr ers yr arolygiad diwethaf yn 2010. Roedd 'paneli risg uchel' bob pythefnos i oruchwylio gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn peri risg i'r cyhoedd, neu a oedd eu hunain yn agored i niwed. Roedd seiciatrydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gael i roi cyngor mewn achosion cymhleth. Gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth a ddarparwyd gan y panel risg uchel, ac fe gafodd hyn ei werthfawrogi gan reolwyr achos. Ar y cyfan, canfuom fod goruchwyliaeth gan reolwyr o achosion lle'r oedd pryderon am amddiffyn y cyhoedd yn well na'r oruchwyliaeth o waith i ddiogelu plant a phobl ifanc.

Fe wnaethom gyfweld tri rheolwr achos ac roeddent yn bennaf gadarnhaol am y trefniadau rheoli gweithredol yn GCI Conwy a Sir Ddinbych. Fe wnaeth bob un ystyried bod gan eu rheolwyr y sgiliau angenrheidiol i'w cefnogi ac i'w helpu i wella ansawdd eu harfer. Teimlai dau reolwr achos eu bod wedi cael goruchwyliaeth rheoli llinell effeithiol a phriodol. Canfuom fod y tri rheolwr achos yn deall egwyddorion arfer effeithiol ac yn gyfarwydd â pholisïau lleol a gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd, diogelu plant a phobl ifanc, ymgysylltu a chydymffurfio. Er bod pob un yn teimlo bod eu hanghenion hyfforddiant a sgiliau yn cael eu bodloni'n llawn mewn perthynas â'u swydd bresennol, byddai un rheolwr achos wedi croesawu ymateb pellach ynghylch cydnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc.

Am y chwe mis diwethaf, roedd swyddog adolygu rhan-amser wedi bod yn ei swydd. Mae ei rôl yn cynnwys gwirio ansawdd y cofnodion achos a chwrdd â phlant a phobl ifanc i gael eu barn am y gwasanaeth a gawsant. Mewn un achos, dywedodd arolygydd: *"Roedd y swyddog adolygu yn gallu rhoi adborth i'r rheolwr achos ar ran y person ifanc ei fod yn cael trafferth cadw ar ben nifer yr apwyntiadau a'r amcanion. O ganlyniad, cyflwynwyd amserlen ddarluniadol syml a theimlodd y person ifanc ei fod yn haws rheoli hyn ac yn ei helpu i gydymffurfio â'i orchymyn llys".*

### Cryfderau allweddol

- Roedd plant a phobl ifanc, ynghyd â'u rhieni/gofalwyr, yn cymryd rhan weithredol yn yr asesiad o pam eu bod wedi troseddu ac wrth ddatblygu'r cynllun a gafodd ei roi ar waith i'w helpu i osgoi troseddu yn y dyfodol.
- Cyfraniad Therapydd Lleferydd ac Iaith y GCI wrth helpu rheolwyr achos i gyfathrebu'n effeithiol gyda phob plentyn a pherson ifanc.
- Roedd 'Panel cydymffurfio' y GCI yn effeithiol wrth helpu plant a phobl ifanc i gydweithio â'u gorchymyn llys a chwblhau'r gwaith a ddisgwyliwyd ganddynt.

### Meysydd sydd angen gwelliant

- Dylai staff a rheolwyr sicrhau bod yr holl asesiadau a chynlluniau cychwynnol i ddiogelu'r cyhoedd ac i ddiogelu plant a phobl ifanc o ansawdd digonol.
- Dylai asesiadau a chynlluniau diogelu a bod yn agored i niwed gael eu hadolygu'n rheolaidd, gan ystyried yr holl newidiadau mewn amgylchiadau.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan y staff yn y GCI i hwyluso ac ymgysylltu â'r arolygiad hwn. A allwch chi ddiolch iddynt ar ein rhan, a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ganfyddiadau'r arolygiad yma.

Os oes gennych ragor o gwestiynau am yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol, Helen Davies. Gellir cysylltu â hi ar helen.davies@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 07919 490420.

Copi at:

| | |
|---|---|
| Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | *Emma Rathbone* |
| Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Conwy | *Iwan Davies* |
| Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Sir Ddinbych | *Mohammed Mehmet* |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, Conwy | *Jenny Williams* |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, Sir Ddinbych | *Nicola Stubbins* |
| Aelod Etholedig Arweiniol dros Wasanaethau Plant, Conwy | *Cyng Wyn Ellis Jones* |
| Aelod Etholedig Arweiniol dros Wasanaethau Plant, Sir Ddinbych | *Cyng Bobby Feeley* |
| Aelod Etholedig Arweiniol dros Drosedd, Conwy | *Cyng Philip Evans* |
| Aelod Etholedig Arweiniol dros Drosedd, Sir Ddinbych | *Cyng David Smith* |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | *Winston Roddick* |
| Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant | *Jenny Williams* |
| Cadeirydd Mainc Llys Ieuenctid, Conwy | *Reg Davies* |
| Cadeirydd Mainc Llys Ieuenctid, Sir Ddinbych | *Sanjay Bhalla* |
| Pennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru | *Dusty Kennedy* |
| Pennaeth Goruchwylio a Chefnogaeth ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru | *Sarah Cooper* |
| Staff cyswllt y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | *Malcolm Potter, Paula Williams, Linda Paris* |
| Estyn | *Rachael Bubalo, Linda Howells* |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | *Nigel Brown, Bobbie Jones* |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | *Robin Bradfield* |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM | *Paul Eveleigh* |

Sylwer: i ofyn am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch â Chyhoeddiadau Prawf AEI ar publications@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 0161 240 5336.